Hafan Ffydd

Mae 'na glust i'n cri mi wn,
Ar y dydd arbennig hwn;
Ma 'na hafan glyd, yma i ni gyd,
Ma 'na fynwes i bob ffydd.

Does na'r un carreg, run gwraig na dyn,
All sefyll stormydd ar ei ben ei hun;
Mae'n cymryd pobol fel chdi a fi,
I godi man sy'n ddigon cry'.

Mae na glust i'n cri mi wn,
Ar y dydd arbennig hwn;
Ma na hafan glyd, yma i ni gyd,
Ma na fynwes i bob ffydd.

Ar sylfaen gadarn fe godwn le,
I leddfu ofnau pob hil a chred;
Gall gynnig ateb drwy gynnig clust,
Mae'n cynnig lloches i ni gyd.

Mae 'na glust i'n cri mi wn,
Ar y dydd arbennig hwn;
Ma 'na hafan glyd, yma i ni gyd,
Ma 'na fynwes i bob ffydd.

Down at ein gilydd ac estyn llaw,
Wrth i ni ofyn cwestiynau mawr;
Yr holl atebion sy'n arwain ni,
A throi y lleisiau'n harmoni.

Mae 'na glust i'n cri mi wn,
Ar y dydd arbennig hwn;
Ma 'na hafan glyd, yma i ni gyd,
Ma 'na fynwes i bob ffydd.

Cerddoriaeth: Pwyll ap Siôn
Geiriau Cymraeg: Barry Jones / Tania ap Siôn

Copyright © Pwyll ap Siôn, Barry Jones &Tania ap Siôn 2010